ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mai 2018

Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd

Yn ddiweddar bu criw o flwyddyn 8 wrthi'n brysur yn dylunio Logo ar gyfer Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd sydd yn brosiect gan y Cyngor i sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter Iaith sy'n cael ei gweithredu yn yr ysgolion cynradd.

Arweinydd y Strategaeth yw Mrs. Carys Lake. Bu Mrs. Lake draw yn cael sgwrs hefo'r disgyblion a lluniwyd Logo ar gyfer y Strategaeth sy'n gyfuniad o nifer o syniadau gan y disgyblion. Hefyd dewiswyd disgyblion o Ysgol Eifionydd a disgyblion o'r Ganolfan Iaith uwchradd ar gyfer y llun fydd yn glawr i'r Strategaeth Iaith.

Cafodd Blwyddyn 9 ymweliad gan ddwy awdures llyfrau ar gyfer plant, yn eu harddegau yn ddiweddar. Daeth Bethan Gwanas a Lleucu Roberts atom am brynhawn i drafod eu dwy nofel newydd sef Efa – Bethan Gwanas ac Yr Ynys – Lleucu Roberts. Cafodd y disgyblion weithdy difyr iawn yn eu cwmni a chyfle i holi'r ddwy am eu gwaith.

	Llongyfarchiadau i Jac Humphreys ar gael ei ddewis i gynrychioli tîm dan 15 Pêl-droed Cymru a hefyd wedi ennill y ras 100m yn Nhreborth yng Nghystadlaethau Meirion-Dwyfor. Bydd Jac nawr yn cynrychioli Meirion-Dwyfor yng nghystadleuaeth Eryri ar y 4 o Fai. Pob lwc iddo. Gyda diolch i Nigel Hughes am y llun.